Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Georgie Porgie`s Tir Morfa**

**Ysgol Tir Morfa**
**Marine Drive**
**Sandfields**
**Port Talbot**
**SA12 7NN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Georgie Porgie`s Tir Morfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Gemma Williams<br>Caralyn George |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Ionawr 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

terfynol heb ei
gyhoeddi

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn, a gynhaliwyd yn bennaf i ystyried agweddau ar themâu Gofal a Datblygiad ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Felly, nid ydym wedi ystyried y themâu yn llawn.

Mae'r plant yn fodlon ac wedi setlo. Gallant wneud dewisiadau am eu chwarae ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Mae'r staff yn siarad â'r plant mewn ffordd garedig a gofalgar, ac yn eu cefnogi'n dda yn ystod eu hamser yn y feithrinfa.

Mae'r feithrinfa yn ddiogel, yn lân ac yn olau, gan ddarparu amgylchedd addas i'r plant chwarae a dysgu. Ceir amrywiaeth a nifer digonol o adnoddau a chyfarpar i helpu'r plant i ddysgu a datblygu.

Ar y cyfan, mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y feithrinfa yn rhedeg yn hwylus. Maent yn cymryd camau priodol mewn ymateb i ddigwyddiadau ac yn ymateb i adborth mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r arweinwyr yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn fodlon ac wedi setlo yn y feithrinfa. Gallant wneud dewisiadau am yr hyn y maent yn ei wneud a dewis yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae rhyddid ganddynt i archwilio'r amgylchedd dan do ac maent yn cael cyfleoedd da i chwarae yn yr awyr iach yn yr ardal awyr agored.

Mae'r plant yn hyderus ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Maent yn ymwybodol o drefn arferol y feithrinfa ac yn ei dilyn, gan wrando'n ofalus pan ofynnir iddynt dacluso neu olchi dwylo i gael byrbryd neu ginio.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda. Maent yn chwarae'n hapus ac yn cydweithredu mewn grwpiau bach neu ochr yn ochr ag eraill, fel sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu. Maent yn sgwrsio â'i gilydd wrth iddynt chwarae neu'n troi at y staff am gymorth, er enghraifft wrth adeiladu gan ddefnyddio blociau cysylltiol.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda ac yn mwynhau eu chwarae. Maent yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu drwy'r gweithgareddau a'r profiadau a ddarperir, gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae bron pob plentyn yn dewis beth yr hoffai ei wneud yn annibynnol o amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar. Er enghraifft, gwelsom y plant yn ymgysylltu â'i gilydd wrth chwarae rôl neu'n creu llun unigol wrth yr isl peintio. Mae'r plant yn cael cyfnodau estynedig lle gallant ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau wrth iddynt arwain eu chwarae eu hunain. Mae'r plant hefyd yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion, fel amser canu, ond gall y plant nad ydynt am ymuno ddewis parhau i chwarae gyda gweithgaredd o'u dewis nhw.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn ystod amser cinio mae'r plant yn bwyta'n annibynnol ac yn rheoli cynnwys eu bocsys bwyd eu hunain. Maent yn helpu i dacluso ac yn dysgu am bwysigrwydd arferion hylendid personol wrth iddynt olchi eu dwylo cyn bwyta.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Ar y cyfan, mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gan y staff gymwysterau addas ac mae digon ohonynt wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig addas. Mae gan yr arweinwyr bolisïau a gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod y feithrinfa yn rhedeg yn hwylus. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r gweithdrefnau yn ddigon clir i reoli digwyddiadau achlysurol yn llwyddiannus. Mae'r staff yn defnyddio ap electronig i gyfathrebu â'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn, gan gynnwys rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddamweiniau y gallai eu plentyn fod wedi eu cael. Ar y cyfan, mae'r system hon yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae'r arweinwyr wedi cryfhau'r gweithdrefnau a ddefnyddir ganddyn nhw a'r staff i gofnodi damweiniau ac i gyfathrebu â'r rhieni am yr agwedd hon ar ddiwrnod eu plentyn. Maent wedi cynnal hyfforddiant ychwanegol i'r staff er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod beth i'w wneud. Mae'r arweinwyr hefyd wedi rhoi asesiad risg ychwanegol ar waith, er nad ydynt wedi ei ddiweddaru yn dilyn gwaith pellach ar un o'r giatiau yn yr amgylchedd awyr agored. Maent wrthi'n adolygu pob un o'u hasesiadau risg cyfredol.

Mae'r staff yn garedig a gofalgar ac yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd bwyllog a chadarnhaol. Maent yn cefnogi'r plant yn eu chwarae ac yn ehangu eu dysgu drwy ofyn cwestiynau priodol a chynnal trafodaethau priodol. Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn darparu cymorth un i un pan fo angen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer dod i mewn i'r adeilad, ac mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r feithrinfa. Mae'r feithrinfa yn lân ac yn olau, ac yn cynnwys dwy ystafell chwarae gysylltiol sy'n cynnig digon o le i'r plant symud o gwmpas a chwarae. Mae ardal chwarae fawr ar gael i'r plant y tu allan, y gellir ei chyrraedd yn syth o'r ystafelloedd chwarae, sy'n cynnwys dwy ardal benodol. Ar hyn o bryd, nid yw un o'r ardaloedd yn cael ei defnyddio, gan fod yr arweinwyr yn aros i gael gwared ar hen gyfarpar o'r ardal honno. Gall y plant chwarae yn yr awyr agored o hyd gan fod modd cyrraedd yr ardal arall drwy giât gysylltiol.

Mae digon o adnoddau, cyfarpar, a dodrefn ar gael dan do ac yn yr awyr agored sy'n addas i'r plant eu defnyddio ac sy'n cefnogi eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir o'r hyn yr hoffent i'r feithrinfa ei gyflawni ac maent yn ymdrechu i ddarparu gofal plant o ansawdd. Ar y cyfan, maent yn darparu polisïau a gweithdrefnau sy'n helpu'r feithrinfa i redeg mewn ffordd ddiogel a hwylus. Er bod yr arweinwyr yn ymateb yn gyflym pan fydd damweiniau yn digwydd, weithiau ni fyddant yn cyfathrebu'n ddigon da â'r staff i sicrhau y gallant ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau o'r fath. O ganlyniad, weithiau nid ydynt wedi gallu rhoi sicrwydd i'r rhieni am amgylchiadau damweiniau a ddigwyddodd i'w plant. Mae'r arweinwyr yn gwneud diwygiadau i'w hymarfer, yn adolygu'r trefniadau diogelwch, ac yn sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth a hyfforddiant i'r staff mewn perthynas ag unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr arweinwyr wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau o bwys yn ddiweddar. Nid oeddent wedi rhoi gwybod i AGC am newidiadau diweddar i'r staff ychwaith. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| 31 | Rhaid i'r darparwr sicrhau ei fod yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw ddigwyddiadau o bwys fel y nodir yn y rheoliadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ond heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y digwyddiad. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 6 - Gweithio mewn partneriaeth â rhieni | Sicrhau y caiff arferion newydd mewn perthynas â chwblhau cofnodion damweiniau a chyfathrebu â rhieni eu rhoi ar waith yn llawn. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod asesiadau risg yn ddogfennau gweithredol ac yn cael eu diweddaru fel y bo angen mewn modd amserol. |

gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi